

Cyngor Bro Llanllwni 14 Mawrth 2016

Cyng Dewi Davies (Cadeirydd)
Eirlys Owen (Clerc)

AGENDA

Roedd y Clerc wedi rhoi copi o'r agenda yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Estynwyd cydymdeimlad i Tom Jones ar farwolaeth ei frawd yng nghyfraith yn ddiweddar.
Dymunwyd pob dymuniad da i Dewi Thomas.

PLISMONA

Croesawyd Eleri Bonning i'r cyfarfod. Cafwyd trafodaeth fuddiol ar ddiogelwch yn y plwyf.

Y CAE CHWARAE

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio yn fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae. Nodwyd bod angen i Lyn Jones lanhau'r matiau; byddai'r Cadeirydd yn cysylltu â Lyn Jones i wneud trefniadau.

TOILEDAU

Penderfynwyd bod angen toiledau ar y Cae Chwarae rhwng 01 Mehefin a 30 Medi; byddai'r Clerc yn cysylltu â Kangaloos i wneud trefniadau.

YR ADNODDAU CHWARAE

Roedd y Clerc wedi cysylltu â Ian Edwards am archwiliad yn y Gwanwyn.

GWEFAN LLANLLWNI

Roedd y wefan newydd wedi mynd yn fyw ar 01 Mawrth ar Llanllwni.Cymru. Roedd adroddiadau o gyfarfodydd y Cyngor Bro ar y wefan.

TYLLAU YN YR HEWL

Glennydd - Cwmderi.
Fferm Talardd – Aberceiliog.
Ffynonddrain – Gwarewm.
Y gwaith heb ei gwblhau.

TORRI CLAWDD

Pendderi – Prysg.
Y gwaith wedi ei gwblhau.

GOLEUADAU

Y goleuadau gyferbyn â'r ysgol ddim yn gweithio.

RHOS UCHAF

Cadarnhawyd nad y Cyngor Sir oedd yn berchen ar y darn o dir. Roedd perchnogion Rhos Uchaf yn hapus bod pot blodyn yn cael ei osod yno a bod Lyn Jones yn torri'r

borfa. Penderfynwyd yn unfrydol i archebu pot blodyn yr un fath â'r rhai sydd yn y pentref yn barod cyn y cyfarfod nesaf; byddai'r safle yn cael ei baratoi ymlaen llaw a derbyniwyd cynnig o beiriant gan Tommy Davies. Diolchwyd iddo am y gymwynas.

AMNEST TEIARS A GWASTRAFF

Dydd Mawrth 15 Mawrth ym Maes Parcio Llanybydder o 8 yb – 1 yp.

TÂN AR Y MYNYDD

Cynnau tân ar fynydd Llanllwni i ddathlu penblwydd y Frenhines yn 90 oed. Bu gwrthwynebiad cryf yn y gorffennol.

CEISIADAU AM GYMORTH

Penderfynwyd cefnogi Gofal Mewn Galar, Pwyllgor Ymgynghorol Sir Caerfyrddin (Cymdeithas y Sioe Fawr), Teenage Cancer Trust, Eisteddfod Urdd Gobaith Cymru 2016, Eisteddfod Genedlaethol 2016, Clefyd y Galon (Ardal Llanybydder).

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 09 Mai 2016 am 8yh. Bydd yn Gyfarfod Blynyddol.